OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 930 (Cy. 159)

2025 No. 930 (W. 159)

PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

PUBLIC SERVICE PENSIONS, WALES

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2025

The Firefighters' Pension Scheme (Wales) (Amendment) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") sy'n nodi Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun Pensiwn 2015").

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2025 ac nid oes iddynt effaith ôl-weithredol.

Mae rheoliadau 3, 4 a 9 yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â hawlogaethau aelodau'r cynllun yn ystod cyfnodau o absenoldeb profedigaeth rhiant.

Mae rheoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 i ddarparu ar gyfer cyfraddau cyfraniadau aelod newydd a dull newydd o bennu cyfraddau cyfraniadau aelodau o 1 Medi 2025 ymlaen.

Mae rheoliad 6 yn mewnosod rheoliad 119A yn Rheoliadau 2015 sy'n cyflwyno dull newydd o bennu cyfraddau cyfraniadau aelodau o fewn Cynllun Pensiwn 2015 sy'n seiliedig ar strwythur haenau yn hytrach nag ystod tâl pensiynadwy. Mae'r dull newydd

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Firefighters' Pension Scheme (Wales) Regulations 2015 ("the 2015 Regulations") which set out the Firefighters' Pension Scheme (Wales) 2015 ("the 2015 Pension Scheme").

These Regulations come into force on 1 September 2025 and do not have retrospective effect.

Regulations 3, 4 and 9 amend the 2015 Pension Scheme to make provision in respect of scheme members' entitlements during periods of parental bereavement leave.

Regulations 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 amend the 2015 Pension Scheme to provide for new member contribution rates and a new mechanism by which members' contribution rates are determined from 1 September 2025.

Regulation 6 inserts regulation 119A into the 2015 Regulations which introduces a new mechanism whereby members' contribution rates within the 2015 Pension Scheme are determined based on a tier structure rather than pensionable pay range. This new

hwn yn diffinio rolau aelodau'r cynllun at ddiben cyfraddau cyfraniadau aelodau ac yn darparu y bydd y rolau hyn yn perthyn i 1 o 5 haen, y pennir cyfraddau cyfraniadau aelodau yn eu herbyn o 1 Medi 2025 ymlaen. Mae'r dull wedi ei ddiweddaru yn ei gwneud yn glir y bydd diffoddwyr tân wrth gefn a diffoddwyr tân gwirfoddol, ni waeth beth fo'u rôl, yn aros yn haen 1 bob amser wrth bennu'r cyfraddau cyfraniadau aelod sy'n gymwys. At ddibenion rheoliad newydd 119A yn unig, nid yw'r diffiniad o ddiffoddwr tân rheolaidd yn cynnwys rolau rheolwr criw, rheolwr gwylfa, rheolwr gorsaf, rheolwr grŵp, rheolwr ardal, prif swyddog tân cynorthwyol, dirprwy brif swyddog tân na phrif swyddog tân.

Gan fod rheoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn newid elfen warchodedig o'r cynllun a gyfansoddir gan Reoliadau 2015 (fel y diffinnir "protected elements" yn adran 22(5) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013), mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny (neu â chynrychiolwyr y personau hynny) y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt gan y Rheoliadau hyn, gyda golwg ar ddod i gytundeb. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi gosod adroddiad gerbron Senedd Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

mechanism defines scheme member roles for the purpose of members' contribution rates and provides that these roles will fall within 1 of 5 tiers, against which members' contribution rates will be determined from 1 September 2025. The updated mechanism makes clear that regardless of role, retained and volunteer firefighters will always remain within tier 1 when determining applicable member contribution rates. For the purpose of new regulation 119A only, the definition of regular firefighter does not include the roles of crew manager, watch manager, station manager, group manager, area manager, assistant chief fire officer, deputy chief fire officer or chief fire officer.

Since regulations 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 involve a change to a protected element of the scheme constituted by the 2015 Regulations (as defined in section 22(5) of the Public Service Pensions Act 2013), the Welsh Ministers have consulted such persons (or representatives of such persons) as appear to the Welsh Ministers likely to be affected by these Regulations, with a view to reaching agreement. The Welsh Ministers have also laid a report before Senedd Cymru.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 930 (Cy. 159)

PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2025

Gwnaed	*28 Gorffennaf 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*30 Gorffennaf 2025*
Yn dod i rym	*1 Medi 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1) a (2)(f), 2(1), 3(1), (2)(a) a (3)(a) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013")(**1**), a pharagraff 6(b) o Atodlen 2 a pharagraffau 9(a) a (b) o Atodlen 3 iddi.

Yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y personau hynny y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt gan reoliadau 3, 4 a 9 o'r Rheoliadau hyn.

Yn unol ag adran 22(2)(a) o Ddeddf 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny (neu â chynrychiolwyr y personau hynny) y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt gan reoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 o'r Rheoliadau hyn, gyda golwg ar ddod i gytundeb â hwy.

(**1**) 2013 p. 25. Diwygiwyd adran 3 gan adran 94(2) i (6) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 (p. 7).

2025 No. 930 (W. 159)

PUBLIC SERVICE PENSIONS, WALES

FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

The Firefighters' Pension Scheme (Wales) (Amendment) Regulations 2025

Made	*28 July 2025*
Laid before Senedd Cymru	*30 July 2025*
Coming into force	*1 September 2025*

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 1(1) and (2)(f), 2(1), 3(1), (2)(a) and (3)(a) of, and paragraph 6(b) of Schedule 2 and paragraphs 9(a) and (b) of Schedule 3 to the Public Service Pensions Act 2013 ("the 2013 Act")(**1**).

In accordance with section 21(1) of the 2013 Act, the Welsh Ministers have consulted the representatives of such persons as appear to the Welsh Ministers likely to be affected by regulations 3, 4 and 9 of these Regulations.

In accordance with section 22(2)(a) of the 2013 Act, the Welsh Ministers have consulted such persons (or representatives of such persons) as appear to the Welsh Ministers likely to be affected by regulations 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 of these Regulations, with a view to reaching agreement with them.

(**1**) 2013 c. 25. Section 3 was amended by section 94(2) to (6) of the Public Service Pensions and Judicial Offices Act 2022 (c. 7).

Yn unol ag adran 22(2)(b) o Ddeddf 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi gosod adroddiad gerbron Senedd Cymru mewn cysylltiad â rheoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 o'r Rheoliadau hyn.

Yn unol ag adran 3(5) o Ddeddf 2013, gwneir y Rheoliadau hyn gyda chydsyniad y Trysorlys.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2025.

Diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

2. Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 11.

3. Yn rheoliad 3 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "absenoldeb cysylltiedig â phlentyn"—

(i) hepgorer "neu" ar ddiwedd paragraff (e);

(ii) ar ôl paragraff (f) mewnosoder—

", neu

(g) absenoldeb profedigaeth rhiant;";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"mae i "absenoldeb profedigaeth rhiant" yr ystyr a roddir i "parental bereavement leave" yn rheoliad 3 o Reoliadau Absenoldeb Profedigaeth Rhiant 2020(**2**);";

(c) yn y diffiniad o "tâl statudol"—

(i) hepgorer "neu" ar ddiwedd paragraff (c);

(ii) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

", neu

(e) tâl profedigaeth rhiant statudol o fewn yr ystyr a roddir i "statutory parental bereavement pay" yn adran 171ZZ6 (hawlogaeth) o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**3**);".

In accordance with section 22(2)(b) of the 2013 Act, the Welsh Ministers have laid a report before Senedd Cymru in respect of regulations 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 of these Regulations.

In accordance with section 3(5) of the 2013 Act, these Regulations are made with the consent of the Treasury.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Firefighters' Pension Scheme (Wales) (Amendment) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 1 September 2025.

Amendments to the Firefighters' Pension Scheme (Wales) Regulations 2015

2. The Firefighters' Pension Scheme (Wales) Regulations 2015(**1**) are amended in accordance with regulations 3 to 11.

3. In regulation 3 (interpretation)—

(a) in the definition of "child-related leave"—

(i) omit "or" at the end of paragraph (e);

(ii) after paragraph (f) insert—

", or

(g) parental bereavement leave;";

(b) at the appropriate place insert—

""parental bereavement leave" *("absenoldeb profedigaeth rhiant")* has the meaning given in regulation 3 of the Parental Bereavement Leave Regulations 2020(**2**);";

(c) in the definition of "statutory pay"—

(i) omit "or" at the end of paragraph (c);

(ii) after paragraph (d) insert—

", or

(e) statutory parental bereavement pay within the meaning of section 171ZZ6 (entitlement) of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992(**3**);".

(**1**) O.S. 2015/622 (Cy. 50); yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2018/576 (Cy. 103).
(**2**) O.S. 2020/249.
(**3**) 1992 p. 4.

(**1**) S.I. 2015/622 (W. 50); relevant amending instrument is S.I. 2018/576 (W. 103).
(**2**) S.I. 2020/249.
(**3**) 1992 c. 4.

4. Yn rheoliad 27(2) (ystyr "tâl pensiynadwy tybiedig")—

(a) yn is-baragraff (c), ar ôl "absenoldeb mamolaeth ychwanegol," mewnosoder "absenoldeb profedigaeth rhiant,";

(b) yn is-baragraff (e), yn lle "neu absenoldeb tadolaeth ychwanegol" rhodder ", absenoldeb tadolaeth ychwanegol neu absenoldeb profedigaeth rhiant".

5. Yn rheoliad 119 (cyfraniadau aelodau)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle "y golofn briodol ar gyfer y flwyddyn" rhodder "yr ail golofn ar gyfer y cyfnod a ddatgenir";

(ii) yn y pennawd "Cyfradd gyfraniadau o 1 Ebrill 2018 ymlaen" yn y tabl—

(aa) hepgorer y gair "o";

(bb) yn lle "ymlaen" rhodder "- 31 Awst 2025".

(b) ym mharagraff (8), ar ôl "o dan y rheoliad hwn" mewnosoder ", rheoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)".

6. Ar ôl rheoliad 119 mewnosoder—

"**Cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen**

119A.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 120 i 122 (cyfraniadau yn ystod absenoldebau), rhaid i aelod actif o'r cynllun hwn dalu cyfraniadau ar ei dâl pensiynadwy blynyddol i'r cynllun mewn cysylltiad â chyflogaeth gynllun ar y gyfradd gyfraniadau sy'n gymwys i haen yr aelod yn y cyfnod tâl sy'n cynnwys 1 Ebrill ar gyfer y gyflogaeth honno (neu, yn achos aelod actif y mae ei aelodaeth yn dechrau ar ôl 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn, i'r haen yr oedd yr aelod ynddi ar ddechrau'r aelodaeth honno).

(2) Mae'r gyfradd gyfraniadau sy'n gymwys i gyflogaeth gynllun fel y'i pennir yn y tabl canlynol, gyda'r gyfradd gyfraniadau a bennir yn y drydedd golofn o'r cyfnod a bennir yn y drydedd golofn i'w hystyried yn gymwys i'r haen a bennir yn y golofn gyntaf y mae rôl yr aelod actif a bennir yn yr ail golofn yn perthyn iddi:

4. In regulation 27(2) (meaning of "assumed pensionable pay")—

(a) in sub-paragraph (c), after "additional maternity leave," insert "parental bereavement leave,";

(b) in sub-paragraph (e), for "or additional paternity leave" substitute ", additional paternity leave or parental bereavement leave".

5. In regulation 119 (member contributions)—

(a) in paragraph (2)—

(i) for "appropriate column for the year" substitute "second column for the period stated";

(ii) in the table heading "Contribution rate from 1 April 2018"—

(aa) omit the word "from";

(bb) after "1 April 2018" insert "- 31 August 2025".

(b) in paragraph (8), after "under this regulation," insert "regulation 119A (member contributions from 1 September 2025)".

6. After regulation 119 insert—

"**Member contributions from 1 September 2025**

119A.—(1) Subject to regulations 120 to 122 (contributions during absences), an active member of this scheme must pay contributions on their annual pensionable pay to the scheme in respect of a scheme employment at the contribution rate applicable to the member's tier in the pay period in which 1 April falls for that employment (or, in the case of an active member whose membership commences after 1 April in any year, to the tier the member was in at the commencement of that membership).

(2) The contribution rate applicable to a scheme employment is as specified in the following table, with the contribution rate specified in the third column from the period specified in the third column to be considered applicable to the tier specified in the first column into which the active member's role specified in the second column falls:

Haen	*Rôl*	*Cyfradd gyfraniadau o 1 Medi 2025 ymlaen*
1	Diffoddwr Tân Rheolaidd Diffoddwr Tân Wrth Gefn Diffoddwr Tân Gwirfoddol	13.0%
2	Rheolwr Criw Rheolwr Gwylfa	13.2%
3	Rheolwr Gorsaf Rheolwr Grŵp	13.7%
4	Rheolwr Ardal	14.2%
5	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Dirprwy Brif Swyddog Tân Prif Swyddog Tân	14.5%

(3) Pan fo newid yn digwydd i gyflogaeth gynllun, neu newid perthnasol sy'n effeithio ar rôl yr aelod yn ystod blwyddyn ariannol a bod y rôl ddiwygiedig yn perthyn i haen cyfradd gyfraniadau wahanol, rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu bod rhaid cymhwyso'r gyfradd honno a rhaid i'r rheolwr cynllun roi gwybod i'r aelod pa gyfradd gyfraniadau a gymhwysir ac o ba ddyddiad y'i cymhwysir.

(4) Pan fo'r rheolwr cynllun wedi penderfynu o dan baragraff (3) fod cyfradd gyfraniadau wahanol yn gymwys, rhaid i'r aelod dalu cyfraniadau yn ôl y gyfradd honno ar y tâl pensiynadwy y mae'r aelod hwnnw'n ei gael ar yr adeg honno.

(5) Yn y rheoliad hwn—

mae i "diffoddwr tân gwirfoddol" ("*volunteer firefighter*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 (dehongli);

mae i "diffoddwr tân rheolaidd" ("*regular firefighter*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 (dehongli), ond nid yw'n cynnwys diffoddwr tân a gyflogir yn rheolwr criw, rheolwr gwylfa, rheolwr gorsaf, rheolwr grŵp, rheolwr ardal, prif swyddog tân cynorthwyol, dirprwy brif swyddog tân na phrif swyddog tân;

mae i "diffoddwr tân wrth gefn" ("*retained firefighter*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 (dehongli);

Tier	*Role*	*Contribution rate from 1 September 2025*
1	Regular Firefighter Retained Firefighter Volunteer Firefighter	13.0%
2	Crew Manager Watch Manager	13.2%
3	Station Manager Group Manager	13.7%
4	Area Manager	14.2%
5	Assistant Chief Fire Officer Deputy Chief Fire Officer Chief Fire Officer	14.5%

(3) Where there is a change in scheme employment, or a material change which affects the member's role in the course of a financial year and the revised role falls into a different contribution rate tier, the scheme manager must determine that this rate must be applied and the scheme manager must inform the member of the contribution rate applicable and the date from which it is to be applied.

(4) Where the scheme manager has determined under paragraph (3) that a different contribution rate applies, the member must pay contributions at that rate on the pensionable pay which that member is receiving at that time.

(5) In this regulation—

"regular firefighter" *("diffoddwr tân rheolaidd")* has the meaning given in regulation 3 (interpretation), but does not include a firefighter employed as a crew manager, watch manager, station manager, group manager, area manager, assistant chief fire officer, deputy chief fire officer or chief fire officer;

"retained firefighter" *("diffoddwr tân wrth gefn")* has the meaning given in regulation 3 (interpretation);

"volunteer firefighter" *("diffoddwr tân gwirfoddol")* has the meaning given in regulation 3 (interpretation);

ystyr "dirprwy brif swyddog tân" ("*deputy chief fire officer*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod yn ddirprwy brif swyddog tân—

(a) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(b) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), ac

(c) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "prif swyddog tân" ("*chief fire officer*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod yn brif swyddog tân—

(a) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(b) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), ac

(c) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "prif swyddog tân cynorthwyol" ("*assistant chief fire officer*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod yn brif swyddog tân cynorthwyol—

(a) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(b) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), ac

(c) ac eithrio ar sail dros dro;

"crew manager" *("rheolwr criw")* means a person (P) employed (whether whole-time or part-time) by an authority—

(a) in a crew manager role set out in "Fire and Rescue Services Rolemaps" issued by the National Joint Council for Local Authority Fire and Rescue Services in September 2005,

(b) other than as a retained or volunteer firefighter,

(c) on terms under which P is, or may be, required to engage in fire-fighting or, without a break in continuity of such employment, may be required to perform other duties appropriate to P's role (whether instead of, or in addition to, engaging in fire-fighting), and

(d) otherwise than in a temporary capacity;

"watch manager" *("rheolwr gwylfa")* means a person (P) employed (whether whole-time or part-time) by an authority—

(a) in a watch manager role set out in "Fire and Rescue Services Rolemaps" issued by the National Joint Council for Local Authority Fire and Rescue Services in September 2005,

(b) other than as a retained or volunteer firefighter,

(c) on terms under which P is, or may be, required to engage in fire-fighting or, without a break in continuity of such employment, may be required to perform other duties appropriate to P's role (whether instead of, or in addition to, engaging in fire-fighting), and

(d) otherwise than in a temporary capacity;

"station manager" *("rheolwr gorsaf")* means a person (P) employed (whether whole-time or part-time) by an authority—

(a) in a station manager role set out in "Fire and Rescue Services Rolemaps" issued by the National Joint Council for Local Authority Fire and Rescue Services in September 2005,

(b) other than as a retained or volunteer firefighter,

ystyr "rheolwr ardal" ("*area manager*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod—

(a) mewn rôl rheolwr ardal a nodir yn "Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Medi 2005,

(b) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(c) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), a

(d) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "rheolwr criw" ("*crew manager*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod—

(a) mewn rôl rheolwr criw a nodir yn "Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Medi 2005,

(b) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(c) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), a

(d) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "rheolwr gorsaf" ("*station manager*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod—

(a) mewn rôl rheolwr gorsaf a nodir yn "Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Medi 2005,

(c) on terms under which P is, or may be, required to engage in fire-fighting or, without a break in continuity of such employment, may be required to perform other duties appropriate to P's role (whether instead of, or in addition to, engaging in fire-fighting), and

(d) otherwise than in a temporary capacity;

"group manager" *("rheolwr grŵp")* means a person (P) employed (whether whole-time or part-time) by an authority—

(a) in a group manager role set out in "Fire and Rescue Services Rolemaps" issued by the National Joint Council for Local Authority Fire and Rescue Services in September 2005,

(b) other than as a retained or volunteer firefighter,

(c) on terms under which P is, or may be, required to engage in fire-fighting or, without a break in continuity of such employment, may be required to perform other duties appropriate to P's role (whether instead of, or in addition to, engaging in fire-fighting), and

(d) otherwise than in a temporary capacity;

"area manager" *("rheolwr ardal")* means a person (P) employed (whether whole-time or part-time) by an authority—

(a) in an area manager role set out in "Fire and Rescue Services Rolemaps" issued by the National Joint Council for Local Authority Fire and Rescue Services in September 2005,

(b) other than as a retained or volunteer firefighter,

(c) on terms under which P is, or may be, required to engage in fire-fighting or, without a break in continuity of such employment, may be required to perform other duties appropriate to P's role (whether instead of, or in addition to, engaging in fire-fighting), and

(d) otherwise than in a temporary capacity;

(b) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(c) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), a

(d) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "rheolwr grŵp" ("*group manager*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod—

(a) mewn rôl rheolwr grŵp a nodir yn "Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Medi 2005,

(b) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(c) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), a

(d) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "rheolwr gwylfa" ("*watch manager*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod—

(a) mewn rôl rheolwr gwylfa a nodir yn "Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Medi 2005,

(b) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(c) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), a

"assistant chief fire officer" *("prif swyddog tân cynorthwyol")* means a person (P) employed (whether whole-time or part-time) by an authority as an assistant chief fire officer—

(a) other than as a retained or volunteer firefighter,

(b) on terms under which P is, or may be, required to engage in fire-fighting or, without a break in continuity of such employment, may be required to perform other duties appropriate to P's role (whether instead of, or in addition to, engaging in fire-fighting), and

(c) otherwise than in a temporary capacity;

"deputy chief fire officer" *("dirprwy brif swyddog tân")* means a person (P) employed (whether whole-time or part-time) by an authority as a deputy chief fire officer—

(a) other than as a retained or volunteer firefighter,

(b) on terms under which P is, or may be, required to engage in fire-fighting or, without a break in continuity of such employment, may be required to perform other duties appropriate to P's role (whether instead of, or in addition to, engaging in fire-fighting), and

(c) otherwise than in a temporary capacity;

"chief fire officer" *("prif swyddog tân")* means a person (P) employed (whether whole-time or part-time) by an authority as a chief fire officer—

(a) other than as a retained or volunteer firefighter,

(b) on terms under which P is, or may be, required to engage in fire-fighting or, without a break in continuity of such employment, may be required to perform other duties appropriate to P's role (whether instead of, or in addition to, engaging in fire-fighting), and

(d) ac eithrio ar sail dros dro.”

7. Yn rheoliad 120 (cyfraniadau yn ystod absenoldeb o’r gwaith oherwydd salwch, anaf, anghydfod undebol neu absenoldeb awdurdodedig)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl “rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)” mewnosoder “neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)”;

(b) ym mharagraff (2), ar ôl “rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)” mewnosoder “neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)”;

(c) ym mharagraff (3), ar ôl “rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)” mewnosoder “neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)”;

(d) ym mharagraff (4), ar ôl “rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)” mewnosoder “neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)”.

8. Yn rheoliad 121(1) (cyfraniadau yn ystod absenoldeb o’r gwaith ar absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn), ar y diwedd mewnosoder “neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen).”

9. Yn rheoliad 122 (cyfraniadau yn ystod absenoldeb cysylltiedig â phlentyn)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl “rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)” mewnosoder “neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)”;

(b) ym mharagraff (3)—

(i) ar ôl “absenoldeb mabwysiadu ychwanegol” mewnosoder “, absenoldeb profedigaeth rhiant”;

(ii) ar ôl “rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)” mewnosoder “neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)”.

10. Yn rheoliad 123(1) (didynnu a thalu cyfraniadau), ar ôl “reoliad 119 (cyfraniadau aelodau)” mewnosoder “neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)”.

(c) otherwise than in a temporary capacity.
”

7. In regulation 120 (contributions during absence from work due to illness, injury, trade dispute or authorised absence)—

(a) in paragraph (1), after “regulation 119 (member contributions)” insert “or regulation 119A (member contributions from 1 September 2025)”;

(b) in paragraph (2), after “regulation 119 (member contributions)” insert “or regulation 119A (member contributions from 1 September 2025)”;

(c) in paragraph (3), after “regulation 119 (member contributions)” insert “or regulation 119A (member contributions from 1 September 2025)”;

(d) in paragraph (4), after “regulation 119 (member contributions)” insert “or regulation 119A (member contributions from 1 September 2025)”.

8. In regulation 121(1) (contributions during absence from work on reserve forces service leave), at the end insert “or regulation 119A (member contributions from 1 September 2025).”

9. In regulation 122 (contributions during child-related leave)—

(a) in paragraph (1), after “regulation 119 (member contributions)” insert “or regulation 119A (member contributions from 1 September 2025)”;

(b) in paragraph (3)—

(i) after “additional adoption leave” insert “, parental bereavement leave”;

(ii) after “regulation 119 (member contributions)” insert “or regulation 119A (member contributions from 1 September 2025)”.

10. In regulation 123(1) (deduction and payment of contributions), after “regulation 119 (member contributions)” insert “or regulation 119A (member contributions from 1 September 2025)”.

11. Yn rheoliad 132(e) (taliadau i mewn i gronfa bensiwn y diffoddwyr tân) ar ôl "reoliad 119 (cyfraniadau aelodau)," mewnosoder "rheoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen),".

Yr ydym yn cydsynio â gwneud y Rheoliadau hyn.

11. In regulation 132(e) (payments into the firefighters' pension fund), after "regulation 119 (member contributions)," insert "regulation 119A (member contributions from 1 September 2025),".

We consent to the making of these Regulations.

Anna Turley
Nicholas Dakin

Dau o Arglwydd Gomisiynwyr Trysorlys Ei Fawrhydi

28 Gorffennaf 2025

Two of the Lords Commissioners of His Majesty's Treasury
28 July 2025

Jayne Bryant

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
28 Gorffennaf 2025

Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
28 July 2025

©ℌHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39716-1

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/930